

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

27 Tachwedd 2020

Cyfarfod Rhithwir

10.00 – 1.00

SESIWN AGORED: 10.00 – 1.00

Presennol:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)
Eleri Twynog Humphries
Gwilym Dyfri Jones
Carl Williams
Mike Cavanagh
Anwen Jones
Hugh Thomas

Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Liz Siberry
Yr Arglwydd Aberdâr
Gwenllian Lansdown Davies
Quentin Howard
Elin Royles

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd
David Michael

Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau
Corfforaethol)

Staff eraill:

Annwen Isaac
Carol Edwards

Rheolwr Adnoddau Dynol
Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cofnodydd)

Sylwedyddion:

Catrin Hughes
Nia Dafydd
Doug Jones

CyMAAL
Cyngor Partneriaeth
Cyngor Partneriaeth

1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i bumed cyfarfod rhithwir Bwrdd Ymddiriedolwyr y Llyfrgell.

1.2 Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Steve Williams, Steffan Roberts, ac Owain Roberts.

1.3 Datgan Buddiannau

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriol Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Gregynog, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant ac yn aelod o Gyngor Cymdeithas y Cymrodorion.

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi eleni gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 18 Medi 2020 a thrafod materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod agored 18 Medi fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd yn amodol ar y newidiadau canlynol;

O dan 2.3, Polisi Arian Wrth Gefn, dylai'r frawddeg ganlynol ddarllen fel a ganlyn;

Nodwyd bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu darparu gan Investec, y rheolwyr buddsoddi, sy'n rhoi sicrwydd i'r Llyfrgell ac yn lliniaru'r *risgiau* gymaint ag sy'n bosibl.

Bydd y cofnod yn y fersiwn Saesneg yn cael ei ddiwygio yn yr un modd;

It was noted that regular reports are being provided by Investec, the investment managers, giving the Library assurance and mitigating *the risks* as far as is possible.

Angen cywiro'r cofnod o dan eitem 7.1 yn y cofnodion Saesneg i ddarllen fel a ganlyn;

It was requested that a progress report on the Operational Plan is placed on the agenda for the next Board meeting yn hytrach nag Executive Plan.

Materion yn codi o gofnodion 18 Medi 2020

Manffesto Polisi

Cafwyd diweddariad ynglŷn â'r manffesto gan y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a sicrhodd y Bwrdd nad manffesto gwleidyddol oedd hwn, ond yn hytrach manffesto ar bolisiau'r Llyfrgell at sylw'r gwleidyddion. Serch hynny, oherwydd yr holl gyfarfodydd sydd wedi eu cynnal gyda gwleidyddion a swyddogion o bob plaid dros y misoedd diwethaf, penderfynwyd peidio ag anfon unrhyw ddogfen ysgrifenedig at wleidyddion, ond mi fydd dogfen o'r fath yn cael ei drafftio ar gyfer ei rhannu gyda'n rhandaliad.

Cofnodion cyfarfod caeedig 18 Medi 2020

Os oes unrhyw sylwadau ar gofnodion cyfarfod caeedig 18 Medi, dylid eu cyflwyno i'r Llywydd a/neu Glerc y Bwrdd.

1.4.1. Log Gweithredu 18 Medi 2020

Nid yw'r linc i "toolkit" diogeledd seiber y NCSC wedi ei gylchredeg eto i'r Ymddiriedolwyr. Bydd y Tîm Gweithredol yn gofyn i Bennaeth TGCh ddilyn hyn i fyny fel mater o frys.

Bydd y cofrestr risg adrannol yn cael eu cynnwys ar agenda'r Pwyllgor Archwilio a Risg o hyn allan, ac yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, gwnaethpwyd archwiliad manwl (deep dive) i gofrestr yr Adran TGCh.

Gofynnwyd a oedd modd cylchredeg y papur ar brosiectau sydd wedi derbyn arian grant, ac addawodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd wneud hyn yn dilyn y cyfarfod.

Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad

2.1 Strategaeth 2021 – 2026

Cyflwynir drafft o'r Strategaeth i'r Ymddiriedolion yn seiliedig ar drafodaethau a'r ymgynghori sydd wedi digwydd dros y misoedd diwethaf. Diolchodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i Owain Roberts a Dafydd Tudur am ddadansoddi'r ymatebion i'r broses ymgynghori a chynorthwyo gyda'r broses o ddrafftio'r fersiwn sydd wedi ei chyflwyno heddiw.

Mae hon yn ddrafft lefel uchel, ac mae angen datblygu cynllun gweithredu i gyd-fynd â'r strategaeth ynghyd â chytuno ar ddangosyddion cyflawni gyda Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar y cynllun gweithredu. Mae'r Strategaeth yn cael ei chyflwyno yn gynnar yn y broses gynllunio i roi sail gweithredu i'r Llyfrgell a chymorth gyda'r ailstrwythuro corfforaethol i sicrhau bod strwythur mewn lle i gyflawni gofynion y Strategaeth.

Bydd crynodeb deniadol byr o'r Strategaeth yn cael ei ddylunio bydd yn medru cael ei ddsbarthu'n eang i'n rhanddeiliaid, a gall hwn fod ar gael mewn ffurf print, ac ar ffilm, ond mi fydd y Strategaeth lawn ar gael yn electronig yn unig.

Cafwyd nifer o sylwadau a chwestiynau gan yr Ymddiriedolion ar gynnwys a diwyg y drafft;

- Mae angen pwysleisio'r sgiliau unigryw sydd gan y Llyfrgell, gan ei bod yn anodd iawn amnewid y rhain
- Angen bod yn gyson o ran llais a naratif y ddogfen yma a'r Strategaeth Ryngwladol
- A ddylai'r ddogfen gyfeirio at ymrwymiad i chwilio cyfleodd amgen a grantiau amgen ar gyfer prosiectau? - bydd y Llyfrgell yn chwilio am gyllid ychwanegol o amryw o ffynonellau eraill wrth i'r arian a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru leihau
- Angen llai o fanylion am yr amcanion, a mwy am y ffyrdd o weithio
- Ydi'r Llyfrgell wedi meincnodi yn erbyn sefydliadau tebyg eraill yng Nghymru, y DU ac ar draws y byd? - Ydi, o fewn y DU, ond angen sgwrs bellach ynglŷn â chymharu yn erbyn llyfrgelloedd ar draws y byd
- Oes Datganiad Gweledigaeth yn bodoli ar gyfer y Strategaeth? - bydd y Prif Weithredwr yn cynnwys hyn yn y drafft nesaf

Croesawyd yn fawr y sylw ynglŷn â ble mae'r Llyfrgell yn ffitio i mewn o ran llyfrgelloedd eraill, a ble mae'n medru gosod ei hun i'r fantais gorau. Cytunwyd y dylai hyn ffurfio rhan o'r drafodaeth yng nghyfarfod anffurfiol nesaf y Bwrdd ar 17 Rhagfyr.

Gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau pellach ar y drafft yma erbyn 14 Rhagfyr, fel bod modd creu fersiwn diwygiedig i'w dosbarthu i'r Aelodau cyn y Nadolig.

2.2 Strategaeth Ryngwladol

Dyma'r Strategaeth Ryngwladol gyntaf i'r Llyfrgell ei mabwysiadu, ac mae'r drafft yma'n ymgorffori'r sylwadau a wnaed gan Aelodau. Bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddrafftio i gyd-fynd â'r Strategaeth, fydd yn chwilio am gyfleodd i godi arian yn rhyngwladol.

Nodwyd y dylid ystyried pwysleisio'r cysylltiadau rhyngwladol sydd gan y Llyfrgell yn barod ac alinio gyda rhwydweithiau Llywodraeth Cymru. Mae hefyd angen cyfeirio at a chanolbwyntio ar bethau mwy penodol, yn hytrach na chyffredinol, yn y Strategaeth yma.

Anogwyd yr Aelodau i anfon unrhyw sylwadau pellach at y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a bydd drafft terfynol y Strategaeth yn cael ei chyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd ar 29 Ionawr.

2.3 Adolygiad Teilwredig – Cynllun Gweithredu

Cyflwynwyd y Cynllun yma i'r Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd, a'r Pwyllgor yma fydd yn gyfrifol am graffu ar gynnydd ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd.

Mae'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd hefyd yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r Uned Noddi a'r Uned Cyrff Cyhoeddus, i drafod cynnydd ar ran y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru.

Mae modd gweithredu ar nifer o'r argymhellion sydd heb oblygiadau ariannol yn weddol sydyn, ac mae trafodaethau'n mynd yn eu blaen gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â nifer o'r argymhellion eraill. Mae'r Uned Noddi wedi anfon sylwadau anffurfiol ar y Cynllun yma at y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd, a bydd hyn yn cael ei ffurfioli cyn ei rannu gyda'r Ymddiriedolion.

Gofynnwyd a oedd yr argymhelliad canlynol yn cael ei weithredu, a chafwyd cadarnhad mai Prosiect yr Archif Ddarlledu oedd yr unig broiect o'r fath oedd yn bodoli ar hyn o bryd.

Argymhelliad 10: Argymhellwn y dylid cyflwyno cynlluniau busnes ar gyfer pob prosiect fydd yn golygu swm sylweddol o wariant, dyweder o fy na 5% o wariant y Llyfrgell yn flynyddol, ac unrhyw ddatblygiad sydd ddim yn gynwysedig yng nghynllun busnes y Llyfrgell ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, fel mater o raid.

Nodwyd fod cynyddu incwm masnachol yn heriol iawn i'r Llyfrgell, ond y gobaith yw y bydd cyfleodd ar gael i gynyddu hyn gydag e-fasnach. Cytunwyd fod angen rhoi sylw i gynllun incwm masnachol yng nghyd-destun cynllun codi arian ehangach.

Argymhelliad 28: Awgrymwn y dylai cefnogaeth a chyngor gael ei gynnig i'r Llyfrgell gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu'i harlwy masnachol, mewn partneriaeth â chyrff eraill sydd yn ymwneud â threftadaeth yng Nghymru.

Yn sgil cyflwyno Strategaeth newydd, gofynnwyd a fyddai modd cyfuno'r cynllun gweithredu hynny gyda'r pwyntiau gweithredu yng nghynllun Gweithredu'r Adolygiad Teilwredig a chael un Cynllun Gweithredu cynhwysfawr. Cytunodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i ystyried hyn.

Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu, ac o hyn allan, bydd y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn adrodd i'r Bwrdd ar gynnydd.

2.4 Rhaglen Hyfforddiant yr Ymddiriedolion

Mae'r rhaglen a gyflwynir wedi ei datblygu ar gyfer Ymddiriedolion newydd, a rhai sydd eisoes yn Aelodau. Mae hyn yn diwallu argymhelliad 10 adroddiad yr Adolygiad Teilwredig, sy'n argymhell bod rhaglen anwytho ar gyfer Ymddiriedolion newydd yn cael ei gweithredu o fewn chwe mis i gychwyn eu cyfnod o wasanaeth.

Awgrymwyd y dylid cynnwys manylion cyswllt y sawl ddylai Ymddiriedolion gysylltu â hwy yn y Llyfrgell, a chytunwyd i gynnwys hyn fel rhan o'r rhaglen anwytho.

Cymeradwywyd y rhaglen, fydd yn weithredol o Ionawr 2021, a bydd yn cael ei adolygu'n flynyddol.

2.5 Taliadau Diswyddo

Cyflwynwyd y ddogfen yma i'r Bwrdd yn ei gyfarfod diwethaf, ond yn dilyn hynny, mae un newid wedi ei gytuno gyda'r undebau llafur, i gydnabod yr adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, sef;

Ar gyfer y staff hynny fydd yn cael ei diswyddo yn orfodol fel rhan o'r broses ailstrwythuro, y taliad uchaf fydd 15 mis tan 30 Medi 2021. Ar ôl y dyddiad hwn bydd yr uchafswm yn dychwelyd i 12 mis.

Diolchwyd i'r uwch swyddogion a'r swyddogion undeb am drafodaethau hwylus i ddelio â'r mater yma. Cymeradwyodd y Bwrdd y telerau diswyddo diwygiedig.

2.6 Oblygiadau Covid-19 ar Weithgareddau a Digwyddiadau'r Dyfodol

Mae'r papur yma'n canolbwyntio ar ddigwyddiadau a gweithgareddau sydd i'w cynnal cyn diwedd y flwyddyn ariannol, ac yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd fod busnes yn parhau, er bod hynny'n rhithwir ac ar-lein yn hytrach nag yn yr adeilad.

Hysbysodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd yr Ymddiriedolion fod perthynas dda yn datblygu rhwng y Llyfrgell a Gŵyl y Gelli, gyda thrafodaethau'n digwydd ynglŷn â chynnal ail ŵyl yn Aberystwyth mewn partneriaeth â'r Brifysgol. Gan fod y Llyfrgell wedi noddi rhaglen yr Ŵyl eleni, mae wedi cael mynediad i tua 50k o gyfeiriadau e-byst; mae hyn yn gyfle cyffrous iawn i'r Llyfrgell fedru ehangu ei chysylltiadau. Nodwyd bod £10k o werthiant ers ailsefydlu'r siop ar-lein, ond bydd medru cysylltu gyda rhestr e-bost Gŵyl y Gelli yn gyfle i gynyddu ar hyn.

Mae'r Llyfrgell hefyd wedi partneriaethu gyda Chyngor Llyfrau Cymru, i gyflwyno cynnwys Gwales; bydd y Cyngor yn prosesu'r archebion a'r Llyfrgell yn derbyn elw o'r gwerthiant; mae'n rhy gynnar eto yn y broses i ddweud beth yw effaith hyn ar incwm y Llyfrgell.

Diolchwyd i'r staff am y digwyddiadau diweddar, a gofynnwyd a oedd modd gosod darlithoedd o'r gorffennol ar-lein - addawodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ymchwilio i hyn.

Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach ar y ddogfen yma at Owain Roberts trwy Glerc y Bwrdd.

TORIAD O 5 MUNUD CYN AIL GYCHWYN Y CYFARFOD

Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad, gan roi crynodeb o'r hyn sydd ar waith ers ysgrifennu'r adroddiad.

Archif Ddarlledu Genedlaethol

Bu'r Prif Weithredwr a Llyfrgellydd mewn cyfarfod y bore yma gyda swyddogion CDL. Er eu bod yn parhau'n gefnogol i'r prosiect, roeddent yn bryderus ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol, yn enwedig yn sgil y toriadau mae'r Llyfrgell yn eu hwynebu, a sut gall hyn effeithio ar y prosiect. Fe'u sicrhawyd fod y prosiect yma'n hanfodol i'r Llyfrgell ac yn un fydd yn cyfoethogi gweithgareddau'r Llyfrgell dros y pum mlynedd nesaf, ac na fydd diffyg cyllid yn effeithio arno. Mynegodd CDL eu bodlonrwydd gyda phenderfyniad y Bwrdd i neilltuo £5.5m o arian preifat i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect.

Rheoliadau a Fframwaith Llywodraethiant

Mae mân ddiwygiadau wedi eu gwneud i'r Rheoliadau a'r Fframwaith Llywodraethiant, ac mae'r rhain wedi eu gosod yn ardal neilltuol y Bwrdd ac ar wefan y Llyfrgell. Mae rhestr o'r newidiadau gan Glerc y Bwrdd.

Adroddiad Cynnydd ar y Cynllun Gweithredu

Mae'r adroddiad yma wedi ei drafod yn y Cyfarfod Monitro Chwarterol gyda'r Uned Noddi ac yn y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad, a mynegwyd bodlonrwydd â'r cynnydd sydd wedi ei gyflawni. Mae'r adroddiad yma hefyd wedi ei osod ar wefan y Bwrdd.

Arddangosfa'r Prif Gyntedd

Bydd y gwaith i osod yr arddangosfa yn cychwyn ym mis Rhagfyr; mi fydd ardal i blant a phobl ifanc yn cael ei neilltuo yn y gofod yma, a'r gobaith yw gwella profiad yr ymwelydd i'r Llyfrgell. Ysbrydolwyd y syniad yma i ddarparu gwell cyfleusterau i blant a phobl ifanc gan y ddarpariaeth sydd ar gael yn Oriol Glan-yr-afon yn Hwlfordd. Mae trafodaethau ar ddatblygu'r cwad yn parhau, ac mae'r Llyfrgell yn aros am ymateb gan Lywodraeth Cymru. Os bydd cyllid ar gael i'w ddatblygu, yna bydd y Llyfrgell yn chwilio am noddwyr i'r ardal ar gyfer plant a phobl ifanc.

Oriel Gregynog

Mae fideo o'r gwaith ar yr adeilad wedi ei rannu gyda'r Aelodau, ac mae Oriol Gregynog i'w gweld yn y fideo wedi ei dychwelyd i'w ysblander gwreiddiol. Dros y misoedd nesaf, bydd angen ystyried sut i ddefnyddio'r gofod ac un opsiwn yw defnyddio'r gofod, neu ran ohono, fel hwb i'r Oriol Gelf Gyfoes Genedlaethol.

Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg

4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Cyflwynwyd y Gofrestr Risg gan Emyr Phillips, a nododd fod y Gofrestr wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar 6 Tachwedd, ond yn dilyn y cyfarfod hwnnw, a thrafodaeth gan y Tîm Gweithredol, mae fersiwn diwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd heddiw.

Diolchwyd i Emyr a'r Tîm Gweithredol am ddiwygio'r Gofrestr; roedd y Bwrdd yn hapus i nodi'r cynnwys.

Adran 5 Materion Ariannol

5.1 Sefyllfa Ariannol Gyfredol a Rhagolygon ar gyfer 2021 – 2022

Eglurodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd fod y papur yma'n gosod allan sefyllfa gyllidol bresennol y Llyfrgell a hefyd heriau'r dyfodol, ac yn darparu sicrwydd bod y Tîm Gweithredol yn cymeryd camau i leihau costau refeniw.

O ran y cronfeydd preifat, mae'r Bwrdd wedi cytuno na ddylent syrthio o dan £10m, a rhoddwyd sicrwydd na fyddai'r cronfeydd yma'n cael eu defnyddio i wneud fyny am y diffyg refeniw.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno eisoes i beidio talu codiad cyflog y flwyddyn nesaf, oni bai fod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, a gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Llyfrgell gystadlu yn y farchnad swyddi.

Cytunodd yr Aelodau i gymeradwyo'r ddau awgrym yn y papur, sef;

- 1) y bwriad i gychwyn proses ymgynghori ar y Cynllun Pensiwn newydd yn ystod mis Rhagfyr, a;
- 2) cychwyn gweithredu'r Cynllun Diswyddo diwygiedig yn Ionawr 2021

Diolchodd y Llywydd i'r Tîm Gweithredol am ddarparu papur clir, a gofynnwyd a fyddai modd iddo gael ei ddiwygio a'i gyflwyno i gyfarfod mis Ionawr, yn dilyn cyhoeddi'r gyllideb yn ystod mis Rhagfyr.

5.2 Cyfrifon Rheoli Hydref 2020

Cyflwynwyd y Cyfrifon Rheoli gan Emyr Phillips. Nododd fod £200k GIA a £50k costau Covid-19 wedi eu derbyn, a diolchodd i Catrin Hughes, Swyddog Noddi, am baratoi tystiolaeth i alluogi 'r Llyfrgell fedru derbyn yr arian yma. Mae her o ran gwario'r grant cyfalaf o fewn y

flwyddyn ariannol, ac mae trafodaethau'n digwydd gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn, ac mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro'n ofalus. Mae tua 85% o'r gwaith wedi ei gwblhau, ond mae £2m ar ôl i'w wario cyn diwedd Mawrth 2021.

Diolchodd y Llywydd i Emyr am gyflwyno'r Cyfrifon, ac ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan yr Aelodau.

5.3 Cyllideb Ddiwygiedig 2021 – 2021

Cyflwynwyd y gyllideb ddiwygiedig gan y Trysorydd, a nododd ei bod wedi ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn ei gyfarfod ar 16 Hydref. Argymhelliad y Trysorydd oedd bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r gyllideb, ac fe wnaed hynny'n unfrydol.

TORIAD O 5 MUNUD CYN AIL GYCHWYN Y CYFARFOD

Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau

6.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 16.10.20

Nododd y Cadeirydd, Lee Yale-Helms fod y materion pwysig yn deillio o'r cyfarfod wedi eu trafod yn ystod y cyfarfod heddiw, a diolchodd i'r Tîm Gweithredol am eu gwaith ar y papur yn amlinellu'r sefyllfa gyllidol gyfredol a'r rhagolygon ar gyfer 2021 - 2022.

O ran yr opsiynau ar gyfer Pen Dinas, nodwyd ei bod yn bwysig edrych ar incwm masnachol ar draws y Llyfrgell, ac nid un ardal benodol. Rhaid ystyried hefyd datblygu'r gwasanaeth cadwraeth, gwasanaeth digidol dogfennau ac ati - bydd adroddiad ar incwm masnachol yn cael ei ddrafftio ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio Ariannol.

6.2 Cofnodion Drafft Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad a gyfarfu ar 02.11.20

Nododd y Cadeirydd, Meri Huws, nad oedd cworwm yn y cyfarfod, felly cytunwyd i basio materion am drafodaeth ymlaen i gyfarfod y Bwrdd, sef y Rheoliadau, Fframwaith Llywodraethiant, Rhaglen Hyfforddiant yr Ymddiriedolion, ac Adroddiad Cynnydd y Cynllun Gweithredu.

6.3 Cofnodion Drafft Pwyllgor Archwilio a Risg a gyfarfu ar 06.11.20

Nid oedd gan y Cadeirydd, Hugh Thomas, unrhyw beth i'w ychwanegu i'r cofnodion. Roedd am nodi fod y trefniant gwasanaeth archwilio mewnol newydd, a ddarperir gan Archwilwyr Mewnol Llywodraeth Cymru, yn gweithio'n dda dros ben. Bydd y Tîm Gweithredol yn pasio sylwadau'r Cadeirydd ymlaen at Helen Morris, Laura Peel a Grant Vernon.

6.4 Cofnodion Drafft Panel Ymgynghorol Adeiladau a gyfarfu ar 06.11.20

Llongyfarchodd y Cadeirydd, Liz Siberry, y Tîm Gweithredol am yr hyn maent wedi ei gyflawni ar yr adeilad mewn amseroedd heriol ac amgylchiadau anodd. Nododd fod angen ystyried dathlu'r adeilad mewn rhyw ffordd pan fydd amgylchiadau'n caniatáu.

Adran 7 Unrhyw fater arall

7.1 Cylch Busnes 2020

Bydd y newidiadau canlynol yn cael eu gwneud i'r Cynllun Cylch Busnes;

- Adroddiadau blynyddol y tri phwyllgor sefydlog i'w cyflwyno i gyfarfod 26 Mawrth 2021
- Cynllun Archwilio Allanol – i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Risg nesaf

7.2 Ymgyrch Penodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

Gofynnodd y Llywydd i Catrin Hughes, Swyddog Noddi, ddiweddarau'r Bwrdd ar y broses.

Derbyniwyd 16 cais ar gyfer swyddi'r Ymddiriedolwyr, a 2 gais ar gyfer swydd y Llywydd - oherwydd nifer y ceisiadau, y cyngor sydd wedi ei roi i'r Dirprwy Weinidog yw i ail redeg yr ymgyrch ar gyfer swydd y Llywydd. Yn dilyn sgwrs gyda'r Llywydd dros dro, mae cyngor wedi ei roi i'r Comisiynydd Apwyntiadau Cyhoeddus i ymestyn cyfnod Meri fel Llywydd am gyfnod pellach o ddiwedd Mawrth hyd ddiwedd mis Medi 2021.

Bydd y panel hidlo'n cyfarfod i drafod rhestr fer ar gyfer swyddi'r Ymddiriedolwyr ar 9 Rhagfyr, a bydd cyfweiliadau'n cael eu cynnal ar 25 a 26 Ionawr 2021.

7.3 Proses Gwerthuso Perfformiad yr Ymddiriedolwyr

Bydd amserlen ar gyfer y broses yn cael eu drafftio gan Glerc y Bwrdd, gan obeithio cwblhau'r gwerthusiadau yn ystod mis Ionawr 2021.

8. Unrhyw fater arall

Diolchodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd i'r Ymddiriedolion am gyfarfod buddiol ac adeiladol, ac roedd yn falch o'u cefnogaeth ar yr adeg heriol yma. Diolchodd hefyd i Meri am gadw mewn cysylltiad rheolaidd.

Diolchodd hefyd i Catrin Hughes, Swyddog Noddi, a Jo Thomas o Adran Gyllid Llywodraeth Cymru am eu cefnogaeth.

**** DIWEDD Y CYFARFOD AGORED ****